


Sut ddylech chi allu cael gafael ar ganlyniadau o astudiaethau ymchwil iechyd?



Beth yw astudiaethau ymchwil?

Cynhelir astudiaethau ymchwil i ateb cwestiynau penodol ar sut i atal, gwneud diagnosis neu drin clefydau neu anhwylderau. Mae lluo o wahanol fathau o astudiaethau ymchwil. Er enghraifft, defnyddir treialon clinigol i brofi meddyginiaethau neu ddyfeisiau newydd. Gallai astudiaethau eraill ddefnyddio cyfweiliadau neu holiaduron yn unig i astudio ymddygiad pobl mewn perthynas ag iechyd.

Astudiaeth GIRASOL

Mae tîm ymchwil, yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, am ganfod sut y dylai canlyniadau astudiaethau ymchwil iechyd fod ar gael i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i sicrhau, yn y dyfodol, y gall y rhai sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth gael gafael ar ganfyddiadau ymchwil iechyd sy'n berthnasol iddynt.

Cymryd rhan

Os ydych dros 18 oed a hoffech gymryd rhan yn yr arolwg, cliciwch isod.

(Gan mai ymchwilwyr allanol sydd wedi cynhyrchu'r arolwg hwn, mae'r fersiwn isod yn Saesneg yn unig. Os hoffech fersiwn Gymraeg o'r arolwg, ebostiwch Mirella Longo:

LongoM1@caerdydd.ac.uk).

GIRASOL Survey

Mae Prifysgol Caerdydd yn gyfrifol am reoli a diogelu eich data personol yn unol â chyfraith Diogelu Data. Ni fyddwn yn rhoi eich manylion i unrhyw drydydd parti.

